

Adroddiad Arolygu ar gyfer Practis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Greenfield Dental Care, Dinas Powys

Dyddiad yr arolygiad: 02 Gorffennaf 2026

Dyddiad cyhoeddi: 02 Hydref 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr gan fod ieithoedd a fformatau amgen yn cael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copi o bob adroddiad, pan gaiff ei gyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu:

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-80853-470-6

© Hawlfraint y Goron 2026



Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw rheoleiddiwr ac arolygiaeth annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein Diben

Rydym yn gwirio diogelwch ac ansawdd gofal iechyd ledled Cymru.

Ein Gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn.

Rydym yn:

Annibynnol – rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud.

Gwrthrychol – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth.

Pendant – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws.

Cynhwysol – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith.

Cymesur – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae ei angen fwyaf.

Ein Gweledigaeth

Dyfodol lle mae gofal iechyd yng Nghymru yn ddiogel, yn effeithiol ac o ansawdd uchel i bawb.

Ein Blaenoriaethau

Rhoi Pobl yn Gyntaf – Byddwn yn canolbwyntio ar y risgiau mwyaf y mae pobl a chymunedau yn eu hwynebu wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd nawr ac yn y dyfodol.

Dysgu a Gweithio Gyda'n Gilydd – Byddwn yn cydweithio â phartneriaid er mwyn rhannu gwersi a ddysgwyd ac ysgogi gwelliannau parhaus.

Buddsoddi yn Ein Pobl – Byddwn yn sicrhau bod ein pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu gwerthfawrogi a'u grymuso.

Cymryd Camau sydd o Bwys – Byddwn yn cymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gofal iechyd ar gyfer dyfodol Cymru.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	11
	Ansawdd Profiad y Claf	11
	Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	16
	Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	22
4.	Y camau nesaf	26
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	27
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	28
	Atodiad C – Cynllun gwella	29



1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Greenfield Dental Care, Dinas Powys ar 02 Gorffennaf 2026.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr gofal iechyd AGIC ac adolygydd cymheiriaid clinigol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o 19 o holiaduron gan gleifion neu eu gofalwyr a chwblhawyd dau gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gawsom yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Roedd adborth y cleifion yn gadarnhaol. Nododd cleifion eu bod hi'n hawdd trefnu apwyntiadau, gan gynnwys apwyntiadau brys ac apwyntiadau mewn argyfwng, a'u bod yn cael digon o wybodaeth i ddeall eu hopsiynau o ran triniaethau, risgiau cysylltiedig, manteision a chostau. Nododd cleifion yn gyson eu bod yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal a'u triniaeth, eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch, a'u bod yn teimlo bod y staff yn gwrando arnynt. Roedd adborth yn tynnu sylw at broffesiynoldeb, natur gyfeillgar a thosturi'r tîm deintyddol, gyda'r cleifion yn gwerthfawrogi'r esboniadau clir a oedd yn cael eu rhoi drwy gydol eu triniaeth a'r cymorth a oedd yn cael ei gynnig i gleifion pryderus. Nododd cleifion hefyd eu bod yn cael cyngor ôl-ofal priodol a gwnaethant fynegi hyder o ran glendid y practis a'i drefniadau atal a rheoli heintiau.

Gwelsom fod y practis yn hyrwyddo iechyd y geg drwy ddarparu amrywiaeth eang o wybodaeth hybu iechyd a'i fod yn sicrhau bod gwybodaeth berthnasol ar gael i'r cleifion am y gwasanaeth. Roedd trefniadau ar waith i ddiogelu urddas, preifatrwydd a chyfrinachedd cleifion, gan gynnwys defnyddio cytundebau cyfrinachedd, manau preifat i drafod materion sensitif, a mesurau yn yr ystafelloedd trin i sicrhau cyfrinachedd.

Roedd gan y practis systemau effeithiol ar waith i gefnogi mynediad amserol at ofal. Gallai'r cleifion drefnu apwyntiadau mewn amrywiaeth o ffyrdd, ac roedd slotiau apwyntiadau brys penodol ar gael bob dydd er mwyn sicrhau y gellid rhoi blaenoriaeth briodol i achosion brys. Roedd y practis hefyd yn cynnig apwyntiadau ar amrywiaeth o amseroedd, gan gynnwys yn gynnar yn y bore a gyda'r nos, er mwyn gwella hygyrchedd.

Gwelsom fod y practis yn ymrwymedig i ddarparu gofal teg. Roedd gwybodaeth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, roedd dewisiadau iaith y cleifion yn cael eu cofnodi, ac roedd gwasanaethau cyfieithu yn cael eu defnyddio lle bo angen. Roedd gan y practis drefniadau ar waith i gefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, gan gynnwys hyfforddiant staff, asesiad mynediad i bobl anabl, a systemau i gefnogi cleifion trawsryweddol ac anneuaidd.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Rhoddodd y cleifion adborth eithriadol o gadarnhaol am y gofal a'r cymorth a roddwyd gan y staff a'u proffesiynoldeb.
- Roedd trefniadau effeithiol ar waith yn y practis i sicrhau y gallai cleifion gael gofal arferol a gofal brys mewn modd amserol.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod gan y practis drefniadau effeithiol ar waith i hybu diogelwch, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y gwasanaeth. Roedd y safle yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, yn lân ac yn hygyrch, ac roedd trefniadau iechyd a diogelwch a diogelwch tân ar waith yn ogystal â threfniadau wrth gefn i'w rhoi ar waith mewn argyfwng. Roedd systemau addas ar waith i fonitro a rheoli risgiau, ac roedd amgylchedd y practis yn darparu lleoliad diogel i gleifion a staff.

Gwelsom hefyd fod y trefniadau ar gyfer atal a rheoli heintiau wedi ymsefydlu'n gadarn. Roedd prosesau dihalogi priodol ar waith ac roedd archwiliadau rheoli heintiau yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Roedd gwastraff yn cael ei reoli'n briodol, ac roedd systemau ar waith er mwyn helpu i drin cyfarpar yn ddiogel a'i gynnal a'i gadw'n ddiogel. Gwelsom fod y defnydd finyl ar y gadair lawdriniaeth a chadair y nyrs yn Neintyddfa 1 wedi rhwygo. Dangosodd y practis fod gorchudd plastig tafladwy yn cael ei roi dros y gadair lawdriniaeth ar gyfer pob claf fel rhan o'i drefniadau atal a rheoli heintiau.

Roedd y trefniadau ar gyfer rheoli meddyginiaethau yn briodol, ac roedd systemau addas ar waith ar gyfer storio, monitro a gwaredu meddyginiaethau. Roedd meddyginiaethau a chyfarpar brys ar gael, yn cael eu harchwilio'n rheolaidd ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n unol â chanllawiau cenedlaethol. Yn ystod yr arolygiad, cafodd y cyffuriau a'r cyfarpar brys eu symud o Ddeintyddfa 1 i leoliad mwy hygyrch. Awgrymwyd y dylai'r practis ddiweddarau ei arwyddion a sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'r lleoliad newydd. Yn dilyn yr arolygiad, rhoddodd y practis dystiolaeth i AGIC i ddangos bod hyn wedi cael ei gyflawni.

Gwelsom fod y trefniadau diogelu yn gadarn. Roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelu priodol, roeddent yn deall eu cyfrifoldebau ac roedd canllawiau perthnasol a llwybrau adrodd ar gael iddynt. Roedd arweinwyr diogelu wedi cael eu nodi, ac roedd polisïau a gweithdrefnau ar waith er mwyn helpu i ddiogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg.

Roedd y cyfarpar clinigol yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol ac roedd prosesau profi, gwasanaethu a sicrhau ansawdd perthnasol ar waith i ategu'r gwaith hwnnw. Roedd y trefniadau diogelu rhag ymbelydredd yn foddhaol, ac roedd y staff wedi cael hyfforddiant priodol.

Roedd cofnodion cleifion o safon dda ar y cyfan ac yn cynnwys gwybodaeth glinigol briodol. Roedd y systemau cofnodion electronig yn helpu i sicrhau bod gwybodaeth am gleifion yn cael ei storio'n ddiogel a'i rheoli'n effeithiol. Fodd bynnag, roedd rhai cofnodion yn cynnwys testun templed cyffredinol nad oedd wedi'i deilwra'n llawn at gleifion unigol, ac nid oedd symptomau cleifion bob amser yn cael eu cofnodi'n gyson. Gwnaethom hefyd nodi anghysondebau yn y broses o ddogfennau'r camau gweithredu

a gymerwyd yn dilyn asesiadau periodontol, gan gynnwys siartiau poced chwe phwynt lle y nodwyd, ac nid oedd cyngor ar roi'r gorau i smygu bob amser yn cael ei gofnodi i gleifion a oedd yn smygu.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Gwella'r trefniadau ar gyfer cadw cofnodion clinigol drwy sicrhau bod y cofnodion wedi'u personoli'n llawn, y caiff symptomau cleifion eu dogfennu'n gyson, ac y caiff yr holl ofal a roddir ei gofnodi'n gywir
- Atgyfnerthu'r broses ar gyfer dogfennu asesiadau radiograffeg a periodontol drwy sicrhau y cynhelir gwerthusiadau clinigol o radiograffau, y driniaeth beriodontol a roddir, a'r siartiau poced chwe phwynt eu cofnodi'n gyson lle bo angen
- Trwsio'r defnydd sydd wedi'i ddifrodi ar y cadeiriau yn Neintyddfa 1 neu gael defnydd newydd yn ei le.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Cynnal a chadw amgylchedd diogel wedi'i reoli'n dda gyda threfniadau iechyd a diogelwch, diogelwch tân, diogelu a rheoli risg effeithiol
- Dangos prosesau atal a rheoli heintiau, gan gynnwys cyfleusterau dihalogi penodol, archwiliadau rheolaidd a gwaith priodol i gynnal a chadw'r cyfarpar.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Cawsom ymateb i'r holiadur staff gan ddau aelod o'r staff ac roedd yr adborth yn gadarnhaol iawn. Cadarnhaodd y staff eu bod wedi cael hyfforddiant priodol, eu bod wedi cael arfarniadau yn ddiweddar, a bod y cyfarpar, yr adnoddau a'r cymorth roedd eu hangen arnynt i gyflawni eu rolau'n effeithiol ar gael iddynt. Nododd y staff hefyd mai gofal cleifion oedd prif flaenoriaeth y practis ac y byddent yn argymhell y practis fel lle i weithio ac i gael gofal deintyddol.

Gwelsom fod strwythur rheoli clir ar waith yn y practis, wedi'i ategu gan rolau a chyfrifoldebau diffiniedig. Roedd systemau ar waith i gefnogi prosesau llywodraethu a goruchwyllo, gan gynnwys cyfarfodydd tîm rheolaidd, proses sefydledig ar gyfer adolygu polisïau, a threfniadau ar gyfer rheoli rhybuddion diogelwch a'u rhannu. Roedd staff nad oeddent yn gallu bod yn bresennol mewn cyfarfodydd yn cael gwybodaeth yn deillio o'r cyfarfod drwy gofnodion a dogfennaeth ategol a oedd yn cael eu dosbarthu.

Roedd gan y practis drefniadau gweithlu effeithiol ar waith i sicrhau bod digon o staff â chymwysterau addas ar gael i ddiwallu anghenion cleifion. Roedd prosesau recriwtio, sefydlu, goruchwyllo ac arfarnu cadarn ar waith, ac roedd y staff yn cael cymorth i ymgymryd â hyfforddiant a gweithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus. Roedd systemau ar waith i fonitro'r gofynion o ran cofrestriadau proffesiynol a chydymffurfiaeth â hyfforddiant.

Gwelsom ddiwylliant cadarnhaol ac agored yn y practis, lle roedd y staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i fynegi pryderon a chyfrannu at wella'r gwasanaeth. Roedd y practis yn mynd ati i ofyn am adborth gan gleifion drwy amrywiaeth o ddulliau, yn adolygu'r adborth yn rheolaidd, ac yn ei ddefnyddio i lywio newidiadau yn y practis. Roedd enghreifftiau yn cynnwys cyflwyno rhestrau ffioedd wedi'u hargraffu a seddau mwy hygyrch mewn ymateb i adborth gan gleifion.

Roedd gan y practis systemau priodol ar waith i reoli cwynion, digwyddiadau a gweithgareddau gwella ansawdd. Roedd cwynion yn cael eu cofnodi a'u monitro, roedd digwyddiadau diogelwch cleifion yn cael eu cofnodi a'u hadolygu, ac roedd gwybodaeth yn ymwneud ag adborth a chwynion yn cael ei defnyddio i nodi cyfleoedd i ddysgu a gwella. Dangosodd y practis hefyd ei fod yn ymgysylltu â sefydliadau allanol a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol pan oedd angen gwneud hynny i gefnogi gofal cleifion.

Gwnaethom nodi rhai meysydd i'w gwella. Nid oedd y datganiad o ddiben yn cynnwys manylion cyswllt Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Yn ogystal, nid oedd y weithdrefn gwyno yn cynnwys manylion cyswllt AGIC i gleifion sy'n cael gofal a thriniaethau deintyddol preifat. Nodwyd gennym hefyd nad

oedd y practis wedi cynnal gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar gyfer tri aelod o'r staff a'i fod yn dibynnu ar dystysgrifau a gafwyd drwy gyflogwyr eraill.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Diweddarau'r datganiad o ddiben er mwyn sicrhau ei fod yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan y rheoliadau, gan gynnwys manylion cyswllt AGIC
- Diwygio'r weithdrefn gwyno i gynnwys enw, cyfeiriad a rhif ffôn AGIC i gleifion sy'n cael gofal a thriniaethau deintyddol preifat
- Adolygu'r gweithdrefnau recriwtio i sicrhau bod gwiriadau recriwtio priodol a datganiadau staff parhaus ar waith.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Cynnal trefniadau llywodraethu ac arwain effeithiol, wedi'u hategu gan gyfarfodydd tîm rheolaidd, adolygiadau o bolisiâu a llinellau atebolrwydd clir
- Dangos diwylliant staff cadarnhaol, gyda'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi ac yn teimlo'n hyderus wrth godi pryderon a chyfrannu at wella'r gwasanaeth
- Mynd ti i ofyn am adborth gan gleifion ac i ymateb iddo, gan ddefnyddio'r adborth i wneud gwelliannau ystyrlon i brofiad cleifion.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Ar y cyfan, roedd yr adborth a gawsom gan gleifion yn gadarnhaol iawn. Nododd cleifion ei bod hi'n hawdd cael apwyntiadau, gyda phawb a ymatebodd yn nodi eu bod wedi ei chael hi'n 'hawdd iawn' neu'n 'eithaf hawdd' cael apwyntiad pan oedd ei angen. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr hefyd yn gwybod sut i gael gafael ar wasanaethau deintyddol brys y tu allan i oriau.

Nododd cleifion eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall eu hopsiynau triniaeth, gan gynnwys y risgiau, y manteision a'r costau cysylltiedig, a nododd pawb a ymatebodd eu bod wedi cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau am eu gofal. Roedd yr adborth am y staff yn eithriadol o gadarnhaol, gyda phawb a ymatebodd yn nodi wedi cael eu trin ag urddas a pharch, eu bod wedi cael esboniadau clir drwy gydol eu hapwyntiadau, a'u bod yn teimlo bod y staff wedi gwrando arnynt.

Roedd yr ymatebion yn ymwneud ag ôl-ofal yn gadarnhaol hefyd, gyda'r rhan fwyaf o'r cleifion yn nodi eu bod wedi cael gwybodaeth ôl-ofal briodol ac arweiniad ar reoli unrhyw haint neu bryderon brys. Nododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr hefyd eu bod wedi cael gwybod sut y byddai pryderon neu gwynion yn cael eu rheoli.

Roedd barn cleifion am yr amgylchedd yn gadarnhaol, ac roedd y mwyafrif o'r farn bod y practis yn hygyrch. Cyfeiriodd un ymatebydd yn benodol at y ffaith bod ystafell drin a chyfleusterau toiled hygyrch ar y llawr gwaelod. Dywedodd pawb a ymatebodd eu bod yn teimlo eu bod yn gallu cael gafael ar y gofal iechyd cywir ar yr adeg gywir, p'un a oedd ganddynt unrhyw nodweddion gwarchodedig ai peidio, ac ni nododd unrhyw ymatebwyr eu bod wedi cael profiad o wahaniaethu wrth ddefnyddio'r gwasanaeth.

Dywedodd pawb a ymatebodd eu bod o'r farn bod y practis yn lân iawn a bod mesurau atal a rheoli heintiau priodol yn cael eu dilyn.

Disgrifiodd cleifion y staff fel unigolion proffesiynol, cyfeillgar a gofalgarn a oedd yn hawdd mynd atynt, a chanmolwyd awyrgylch croesawgar y practis. Roedd yr ymatebwyr yn gwerthfawrogi'r cyfathrebu clir yn ystod pob rhan o'u triniaeth a thynnodd sawl un ohonynt sylw at y cymorth a roddir i gleifion pryderus. Cafwyd canmoliaeth hefyd gan y cleifion wrth nodi ei bod hi'n hawdd trefnu apwyntiadau, gan gynnwys apwyntiadau brys, a disgrifiodd sawl un ohonynt y practis fel practis eithriadol a neilltuoel a'r practis deintyddol gorau roeddent wedi bod iddo erioed.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

“Mae'r practis fel pin mewn papur. Mae bob amser yn edrych yn lân ac yn ddi-haint ond yn groesawgar ar yr un pryd. Mae'r staff bob amser yn gwisgo PPE priodol ac mae'r cyfarpar, y gwely ac ati yn cael eu glanhau wrth i mi adael yr ystafell.”

“100% Mae'r staff, y deintyddion, y nyrsys a staff y dderbynfa yn dilyn mesurau atal a rheoli heintiau drwy'r amser. Mae'r practis yn hynod lân ac yn hylan ym mhob ffordd.”

“Y practis deintyddol gorau rwyf wedi bod iddo o bell ffordd (ac rwyf wedi bod i sawl un!)

O'r ddesg flaen i'r deintyddion eu hunain, does dim byd y gellid ei wella.”

“Mae dull a phroffesiynoldeb pob deintydd a phob aelod o'r staff yn rhagorol. Rwyf wedi bod yn dod i'r practis hwn ers blynyddoedd lawer ac alla i ddim ei ganmol ddigon. Dydw i erioed wedi cael problem a gallaf fynd at y staff ag unrhyw bryder a chaiff ei ddatrys”

“Rydym wedi bod yn dod i bractis Greenfield Dental Care ers 1988 ac ers i [y perchnogion] gymryd yr awenau er mwyn rhedeg y practis presennol. Y deintyddion mwyaf ardderchog, proffesiynol a gwydych chi eu dychmygu. Mae nyrsys, staff a staff derbynfa'r practis yn effeithlon, yn gyfeillgar ac yn rhoi blaenoriaeth i anghenion y cleifion. Mae [deintydd] wedi bod yn fendith llwyr i mi. Yn ystod pob triniaeth, mae'n broffesiynol ac yn empathig ac yn esbonio popeth yn glir, gan gynnwys y driniaeth, yr ôl-ofal ac unrhyw beth arall y mae angen i mi ei wybod. Alla i ddim canmol y practis na'r staff ddigon. Rydym yn defnyddio Denplan ac yn gallu cael apwyntiadau yn gyflym iawn ac apwyntiadau ar yr un dydd mewn argyfwng. Mae [deintydd] yn mynd allan o'i ffordd i allu ein gweld ar ddiwrnodau prysur, a hynny ar fyr rybudd. Diolch Greenfield Dental Care, mae ein dyled i chi yn fawr!”

“Mae'r tîm cyfan yn hyfryd. Rwyf fi a'm mab wedi bod yn dod yma ers sawl blwyddyn ac allen ni ddim bod dim hapusach”

“Mae [deintydd] yn mynd y tu hwnt i'r disgwyl i wneud yn siŵr fy mod yn teimlo'n gyfforddus”

“Practis cwbl neilltuol. Mae pawb mor garedig, amyneddgar a chyfeillgar ac yn gwneud i chi deimlo'n gwbl gyfforddus.”

“Roedd safon y gwasanaeth a'r gofal a gefais yn y practis hwn yn eithriadol o gymharu â phractisau eraill rwyf wedi bod iddynt.”

“Roedd y deintydd a welais yn hawdd siarad ag ef, yn broffesiynol ac yn drylwyr.”

“Alla i ddim mynegi fy niolch ddigon i'r practis deintyddol hwn. Mae pob aelod o'r staff yn hynod groesawgar, cefnogol a pharod i helpu. Mae ymuno â'r practis

deintyddol hwn wedi bod yn newid bywyd llwyr i mi. Roedd arna i ofn mynd i'r deintydd drwy gydol fy mhlentynod ac yn ystod fy mywyd fel oedolyn. Roeddwn i hyd yn oed yn cael triniaethau yn yr ysbyty, gan fod arna i gymaint o ofn mynd i weld deintydd. Roeddwn i'n ei osgoi ar bob cyfrif ac yn dioddef o'r ddannoedd o ganlyniad. Nawr, dydw i ddim yn meddwl ddwywaith am fynd ac rwyf wir yn gwerthfawrogi fy mod yn cael fy ngweld yn rheolaidd a bod fy nannedd yn iach. Dydw i ddim yn teimlo unrhyw ofn mwyach ac mae hynny diolch yn llwyr i ymarfer eithriadol fy neintydd. Ers y diwrnod cyntaf, gwnaeth gydnabod fy ofn. Mae'n gweithio ar gyflymder sy'n addas i fi. Mae'n trafod y broses ac yn fy nhywys drwy bob cam o'r ffordd. Rwyf bob amser yn teimlo fy mod i'n cael digon o wybodaeth ac rwy'n teimlo'n gwbl ddiogel yn ei ofal ac yng ngofal gweddill y tîm – yr hylenydd a'r nyrs ddeintyddol. Alla i wir ddim diolch ddigon iddynt.”

“Mae'r practis yn gwbl eithriadol.”

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu iechyd a gwybodaeth i gleifion

Roedd y practis yn hybu iechyd y geg da drwy ddarparu amrywiaeth o daflenni hybu iechyd yn yr ardal aros. Roedd gwybodaeth ar gael am bynciau fel triniaethau Invisalign, dannedd wedi hollti, iechyd y deintig, dannedd sensitif, deiet ac iechyd y geg, smygu ac iechyd geg, triniaeth sianel y gwreiddyn, mynd i weld yr hylenydd, iechyd y geg plant, phroblemau â'r ên.

Roedd gwybodaeth berthnasol ar gael i'r cleifion am y practis a'r gwasanaethau a ddarperir. Roedd y datganiad o ddiben a'r daflen wybodaeth i gleifion ar gael ar wefan y practis. Roedd gwybodaeth am ffioedd triniaethau ar gael i'r cleifion drwy ganllaw ffioedd a oedd wedi'i arddangos yn yr ardal aros.

Roedd ffolder gwybodaeth i gleifion ar gael yn yr ystafell aros ac roedd yn cynnwys manylion y tîm deintyddol, eu rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC), gwybodaeth am y broses gwyno a thystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus y practis. Roedd gwybodaeth am oriau agor a threfniadau cyswllt brys y tu allan i oriau'r practis hefyd wedi'i harddangos i'r cleifion.

Gofal urddasol a pharchus

Roedd gan y practis fesurau ar waith i ddiogelu urddas, preifatrwydd a chyfrinachedd y cleifion. Gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o'r staff wedi llofnodi cytundebau cyfrinachedd, a oedd yn cael eu cadw yng nghofnodion personél y staff.

Roedd y cleifion yn gallu trafod materion sensitif yn breifat, ac roedd trefniadau ar waith i sicrhau cyfrinachedd yn ystod sgysiau ffôn ac wrth ymdrin â negeseuon. Roedd galwadau yn cael eu rheoli drwy ardal y dderbynfa, lle gallai'r staff ymateb i ymholiadau

gan gleifion mewn ffordd broffesiynol.

Gwelsom fod yr amgylchedd clinigol yn cefnogi preifatrwydd cleifion. Roedd sgriniau preifatrwydd wedi'u gosod ar ffenestri'r ystafelloedd trin ac roedd y drysau yn cael eu cadw ar gau yn ystod ymgynghoriadau a thriniaethau, gan helpu i gynnal urddas a chyfrinachedd y cleifion.

Roedd gwybodaeth yn ymwneud â Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol (y naw egwyddor) ar gael i gleifion yn ffolder gwybodaeth i gleifion y practis.

Amserol

Gofal amserol

Roedd trefniadau ar waith yn y practis i helpu cleifion i gael gofal a thriniaethau mewn modd amserol. Roedd staff y dderbynfa yn rhoi gwybod i gleifion am unrhyw achosion o oedi o ran apwyntiadau, gan esbonio'r rheswm dros yr oedi a rhoi amcangyfrif o'r amser aros. Pe byddai argyfyngau neu glinigau a oedd yn rhedeg yn hwyr yn cael effaith sylweddol ar apwyntiadau, byddai'r staff yn cysylltu â'r cleifion ac yn cynnig apwyntiad angen os oedd angen.

Roedd y practis yn cynnig amrywiaeth o ddulliau ar gyfer trefnu apwyntiadau er mwyn gwella hygyrchedd. Gellid trefnu apwyntiadau cyffredinol ar-lein, a gellid trefnu apwyntiadau dros y ffôn neu wyneb yn wyneb yn y practis hefyd.

Roedd cleifion yr oedd angen gofal deintyddol brys arnynt yn gallu cysylltu â'r practis pan fyddai'n agor bob dydd. Roedd slotiau penodol gyda dau glinigydd yn cael eu cadw bob bore a phrynhawn ar gyfer apwyntiadau brys er mwyn sicrhau y gellid ymateb i achosion brys. Roedd y cleifion â'r anghenion gofal mwyaf dybryd yn cael eu brysennu pan fyddent yn cysylltu â'r practis er mwyn sicrhau bod triniaethau yn cael eu blaenoriaethu yn unol ag anghenion clinigol.

Roedd y practis hefyd yn cynnig apwyntiadau ar draws amrywiaeth o oriau agor, gan gynnwys yn gynnar yn y bore a gyda'r nos, gan alluogi cleifion i gael gofal a thriniaethau ar adegau a oedd yn gyfleus iddynt.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Roedd y practis yn dangos ymrwymiad i ddiwallu anghenion cyfathrebu ei gleifion a'u helpu i gael gwasanaethau yn Gymraeg a Saesneg. Roedd gwasanaeth dwyieithog ar gael, ac roedd y cleifion yn cael gwybodaeth ddwyieithog drwy arwyddion a thaflenni a oedd yn cael eu harddangos ar y sgrin gwybodaeth i gleifion. Roedd y deunyddiau a oedd wedi'u datblygu gan y practis ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Roedd gwybodaeth i gleifion ar gael mewn fformatau amgen ar gais. Gwelsom ddatganiad yn y ffolder gwybodaeth i gleifion yn rhoi gwybod i gleifion y gellid darparu gwybodaeth mewn fformatau gwahanol os oedd angen.

Roedd gan y practis systemau ar waith i nodi a chofnodi dewisiadau iaith cleifion. Gallai cleifion sy'n siarad Cymraeg nodi ei bod hi'n well ganddynt gael gofal yn Gymraeg, ac roedd y staff yn cadarnhau dewis iaith cleifion fel mater o drefn yn ystod apwyntiadau. Roedd anghenion iaith yn cael eu cofnodi yng nghofnodion y cleifion. Roedd gwasanaethau cyfieithu yn cael eu defnyddio ar gyfer cleifion nad Cymraeg na Saesneg oedd eu hiaith gyntaf, er mwyn helpu i gyfathrebu'n effeithiol.

Dangosodd y staff ddealltwriaeth o bwysigrwydd cyfathrebu â chleifion yn eu dewis iaith er mwyn helpu i sicrhau eu bod yn cael gwybodaeth briodol a'u bod yn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus am eu gofal a'u triniaethau.

Roedd y practis hefyd yn cynnig amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu annigidol er mwyn cefnogi cleifion nad oedd ganddynt gyswllt â'r rhynggrwyd neu nad oedd ganddynt dechnoleg symudol.

Hawliau a chydraddoldeb

Roedd systemau ar waith gan y practis i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Gwelsom dystiolaeth o hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth i bob aelod o'r staff. Roedd asesiad risg ar fynediad i bobl anabl wedi cael ei gwblhau ym mis Mehefin 2026 gan sefydliad allanol, gan ddangos bod y practis wedi ystyried anghenion hygyrchedd i boblogaeth o gleifion.

Roedd gan y practis bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith er mwyn helpu i amddiffyn cleifion a staff rhag achosion o wahaniaethu, aflonyddu a thriniaeth annheg mewn perthynas â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Roedd gan y practis drefniadau ar waith i gefnogi cleifion trawsryweddol ac anneuaidd. Roedd y staff yn gofyn i gleifion sut yr hoffent gael eu cyfarch ac yn cofnodi eu rhagenwau a ffefrir a'u henwau a ffefrir. Yn ogystal, roedd toiled neillryw ar gael i gleifion ei ddefnyddio.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Gwelsom fod safle'r practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda a'i fod mewn cyflwr da y tu mewn a'r tu allan. Roedd yr amgylchedd yn lân yr olwg ac yn darparu lleoliad croesawgar i gleifion a staff.

Roedd ardal aros fawr ar y llawr gwaelod, lle roedd digon o seddau i gleifion, yn ogystal ag ardal eistedd ychwanegol ar gyfer y ddwy ddeintyddfa i fyny'r grisiau.

Roedd gan y practis systemau cyfathrebu effeithiol ar waith a threfniadau i gynnal gwasanaethau ffôn pe byddai unrhyw beth yn tarfu ar y systemau, gan gynnwys dargyfeirio galwadau i ffonau symudol os oedd angen. Roedd cyfleusterau digonol ar gael i'r staff, gan gynnwys loceri ar gyfer eiddo personol.

Gwelsom fod y practis yn hygyrch i gleifion ag anawsterau symudedd. Roedd mynediad heb risiau ar gael drwy ramp, ac roedd toiled i gleifion wedi'i leoli ar y llawr gwaelod. Gellid gweld cleifion ag anawsterau symudedd yn y ddeintyddfa ar y llawr gwaelod er mwyn sicrhau y gallent gael eu trin. Roedd y cyfleusterau toiled yn lân ac yn cynnwys cyfleusterau golchi a sychu dwylo a chyfleusterau gwaredu gwastraff mislif priodol. Roedd arwyddion clir ar eu cyfer.

Gwelsom fod amgylchedd y practis yn ddiogel, ac ni nodwyd unrhyw bryderon amgylcheddol wrth i ni edrych o amgylch y safle. Roedd asesiad risg iechyd a diogelwch yn y gweithle cynhwysfawr ar waith, a oedd yn helpu i reoli ac adolygu risgiau'n barhaus.

Roedd gan y practis bolisiau a gweithdrefnau ar waith o ran addasrwydd y safle, iechyd a diogelwch cleifion a staff, a threfniadau wrth gefn mewn argyfwng i helpu i barhau i weithredu'r gwasanaeth yn ddiogel.

Gwelsom dystiolaeth fod trefniadau priodol ar waith ar gyfer gwaith profi a chynnal a chadw. Roedd tystysgrifau dilys ar gael i'w harchwilio ar gyfer diogelwch nwy, Profion Offer Cludadwy (PAT) ac arolygiadau o osodiadau trydanol. Roedd tystysgrifau yswiriant atebolrwydd y cyflogwr ac atebolrwydd cyhoeddus hefyd ar gael, ac roedd poster Cyfraith Iechyd a Diogelwch wedi'i gwblhau wedi'i arddangos yn y practis.

Nodwyd gennym fod y practis wedi cymryd rhagofalon priodol i leihau'r risg o dân. Roedd asesiad risg tân cyfredol wedi cael ei gwblhau gan Bison Assist wedi'i ategu gan gynllun gweithredu lle roedd ei angen. Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer cynnal a chadw'r cyfarpar diogelwch tân, ac roedd cofnodion yn dangos bod y cyfarpar canfod tân yn cael ei brofi'n rheolaidd.

Roedd llwybrau dianc addas ar gael o ddau lawr yr adeilad, ac roedd arwyddion clir ar gyfer yr allanfeydd tân. Roedd diffoddwyr tân ar gael ym mhob rhan o'r safle ac roeddent

wedi cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Roedd cyfarwyddiadau tân ac arwyddion dim smygu wedi'u harddangos yn glir, gan gynnwys yn yr ardal aros a'r toiledau i gleifion.

Gwelsom dystiolaeth hefyd fod ymarferion tân yn cael eu cynnal a bod y trefniadau diogelwch tân yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod gan y practis drefniadau priodol ar waith er mwyn helpu i atal a rheoli heintiau. Roedd arweinydd Atal a Rheoli Heintiau dynodedig wedi'i benodi i oruchwylio trefniadau rheoli heintiau'r practis.

Roedd cymorth iechyd galwedigaethol ar gael i staff y practis, ac roedd brechiadau ar gael drwy wasanaethau meddyg teulu lleol ac roedd trefniadau ar waith i'r staff fynd i'r ysbyty pe baent yn cael anaf wedi'i achosi gan offer miniog. Roedd y staff yn ymwybodol o'r protocol ar gyfer anafiadau wedi'u hachosi gan offer miniog, ac roedd chwistrellau diogelwch yn cael eu defnyddio. Cawsom sicrwydd y gallai pob aelod o'r staff gael y cymorth iechyd galwedigaethol angenrheidiol pan fo angen.

Gwelsom fod prosesau dihalogi priodol ar waith ar gyfer cyfarpar aml dro. Roedd y cyfarpar yn cael ei lanhau â llaw a'i brosesu gan ddefnyddio glanhawr uwchsain bach cyn ei archwilio gan ddefnyddio chwyddwydr a'i sterileiddio. Roedd dau awtoclaf ar gael yn y practis, gan gynnwys un uned newydd ei gosod, ac roedd cofnodion yn dangos bod gwiriadau yn cael eu cynnal o'r cyfarpar ar ddechrau'r dydd ac ar ddiwedd y dydd a'u cofnodi mewn cofnodlyfrau. Roedd cyfarpar yn cael ei gludo'n ddiogel rhwng yr ystafelloedd trin a'r ardal ddihalogi mewn cynwysyddion wedi'u labelu â chaeadau diogel, ac roedd ystafell ddihalogi bwrpasol yn cael ei defnyddio er mwyn sicrhau bod gwaith prosesu cyfarpar a gweithgareddau clinigol yn cael eu cynnal ar wahân.

Roedd y practis yn cynnal archwiliadau rheoli heintiau rheolaidd ac yn cadw cofnodion o brofion a gwaith cynnal a chadw ar y cyfarpar dihalogi. Roedd argraffiadau deintyddol yn cael eu diheintio cyn iddynt gael eu hanfon i labordai.

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod y defnydd finyl ar y gadair lawdriniaeth a chadair y nyrs yn Neintyddfa 1 wedi rhwygo. Dangosodd y practis fod gorchudd plastig tafladwy yn cael ei roi dros y gadair lawdriniaeth ar gyfer pob claf fel rhan o'i drefniadau atal a rheoli heintiau. Cawsom wybod hefyd fod y practis wedi cael dyfynbrisiau ar gyfer cadair newydd a bod y trefniadau ar gyfer cael cadair newydd yn mynd rhagddynt yn barod ar adeg yr arolygiad.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff defnydd sydd wedi'i ddifrodi ar gyfarpar clinigol ei atgyweirio neu y ceir cyfarpar newydd er mwyn gallu cynnal gwaith glanhau a diheintio effeithiol.

Roedd trefniadau priodol ar waith yn y practis i wahanu, storio a gwaredu gwastraff ac roedd contractau priodol ar waith. Roedd gwastraff clinigol yn cael ei storio'n ddiogel mewn cabinetau allanol dan glo cyn ei gasglu.

Roedd gwisgoedd y staff yn cael eu golchi gartref, ac roedd trefniadau ar waith i reoli sylweddau sy'n destun Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) yn ddiogel.

Rheoli meddyginiaethau

Nodwyd bod trefniadau priodol ar waith yn y practis er mwyn helpu i reoli meddyginiaethau yn ddiogel. Roedd gweithdrefnau addas ar waith i waredu cyffuriau a reolir a meddyginiaethau wedi darfod yn ddiogel. Gwelsom fod pecynnau annatureiddio yn cael eu defnyddio, bod y broses o'u gwaredu yn cael ei thystio gan ddau aelod o'r staff, a bod y gwastraff yn cael ei gasglu gan gontractwr arbenigol. Roedd oergell feddyginiaethau ddynodedig ar gael, ac roedd cofnodion tymheredd yn cael eu cadw a'u hadolygu. Disgrifiodd y staff sut y byddai camau cywirol yn cael eu cymryd, gan gynnwys addasu a monitro'r thermostat, pe bai'r tymheredd yn gostwng y tu allan i'r ystod a argymhellir.

Roedd gan y practis systemau cadarn ar waith i ymdrin ag argyfyngau meddygol. Roedd y staff yn ymwybodol o weithdrefnau adfywio'r practis, ac roedd meddyginiaethau a chyfarpar brys ar gael yn unol â chanllawiau cenedlaethol. Roedd y cyffuriau brys yn cael eu storio'n briodol ac nid oedd y dyddiadau dod i ben arnynt wedi darfod ar adeg yr arolygiad. Roedd gwiriadau wythnosol o feddyginiaethau brys, chwistrellau a nodwyddau yn cael eu cynnal bob wythnos a'u cofnodi i sicrhau bod y stociau yn parhau'n gyflawn ac yn gyfredol.

Gwelsom fod cyfarpar brys priodol ar gael, gan gynnwys ocsigen, cyfarpar rheoli llwybrau anadlu, cyfarpar sugno, diffibriliwr allanol awtomataidd (AED), a chyfarpar diogelu personol i'w ddefnyddio yn ystod argyfyngau meddygol. Roedd trefniadau ar waith ar gyfer rheoli silindrau ocsigen, ac roedd y staff wedi cael hyfforddiant ar ddefnyddio silindrau ocsigen yn ddiogel.

Fodd bynnag, yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod y cyfarpar a'r cyffuriau brys wedi'u storio yn Neintyddfa 1. Nid oeddem o'r farn bod y lleoliad hwn yn briodol, gan y gallai rwystro mynediad amserol mewn argyfwng ac y gallai effeithio ar breifatrwydd cleifion. Gwnaethom godi hyn â'r staff a drefnodd i'r cyfarpar a'r cyffuriau gael eu symud i leoliad mwy addas ar ddiwrnod yr arolygiad. Gwnaethom gynghori'r practis y dylai ddiweddarau'r arwyddion i nodi lleoliad newydd y cyfarpar a'r cyffuriau brys yn glir ac y dylai sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cael gwybod am y newid er mwyn helpu i sicrhau ymateb prydlon ac effeithiol pe byddai argyfwng.

Roedd pecyn cymorth cyntaf ar gael ac roedd trefniadau priodol ar waith i ddarparu cymorth cyntaf pan fo angen.

Diogelu plant ac oedolion

Gwelsom fod gan y practis drefniadau diogelu priodol ar waith i amddiffyn plant ac oedolion sy'n wynebu risg. Roedd polisi diogelu ar gael ac roedd yn gyfredol ar adeg yr

arolygiad. Roedd y practis wedi nodi arweinydd diogelu a dirprwy arweinydd diogelu.

Roedd y polisi diogelu yn cynnwys manylion cyswllt lleol ar gyfer rhoi gwybod am bryderon, ac roedd Gweithdrefnau Diogelu Cymru ar gael i'r staff. Gwelsom hefyd ganllaw cyfeirio cyflym a siart lif ar gyfer pryderon diogelu, a oedd yn rhoi arweiniad i'r staff wrth godi ac uwchgyfeirio pryderon.

Dangosodd trafodaethau â'r staff ddealltwriaeth dda o gyfrifoldebau diogelu. Roedd y staff yn ymwybodol o bwy y dylent gysylltu ag ef pe bai ganddynt bryder ac yn gallu disgrifio'r camau y byddent yn eu cymryd i nodi amheuon o gamdriniaeth, ymateb iddynt a rhoi gwybod amdanynt. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i godi pryderon diogelu a'u bod yn gwybod ble i gael cyngor ac arweiniad pan fo angen.

Cadarnhaodd y cofnodion hyfforddiant fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelu ar gyfer plant ac oedolion ar lefel a oedd yn briodol ar gyfer ei rolau.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Gwelsom fod trefniadau ar waith gan y practis i sicrhau bod y cyfarpar clinigol yn ddiogel, yn addas at ei ddiben bwriadedig ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol. Dywedodd y staff wrthym eu bod wedi cael hyfforddiant ar ddefnyddio cyfarpar yn ddiogel fel rhan o'u hyfforddiant sefydlu a thrwy hyfforddiant parhaus yn y practis.

Roedd gan y practis drefniadau priodol ar gyfer defnyddio a dihalogi dyfeisiau meddygol amlbro, ac roedd systemau ar waith er mwyn helpu i gynnal a chadw a monitro'r cyfarpar a oedd yn cael ei ddefnyddio yn y practis.

Gwnaethom edrych ar drefniadau diogelu rhag ymbelydredd y practis a gwelsom fod cymorth priodol yn cael ei roi gan Arbenigwr Ffiseg Feddygol (MPE) a Chynghorydd Diogelu rhag Ymbelydredd (RPA). Roedd trefniadau, polisiâu a gweithdrefnau diogelu rhag ymbelydredd ar waith er mwyn helpu i sicrhau cydymffurfiaeth â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) (IR(ME)R) 2017. Roedd y staff wedi cael hyfforddiant perthnasol, roeddent yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau fel deiliaid dyletswyddau ac roedd hawliau wedi'u neilltuo iddynt yn unigol i ymgymryd â'u rolau. Roedd hyfforddiant a meysydd ymarfer yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Roedd y practis yn dangos ymrwymiad i sicrhau ansawdd mewn perthynas â radiograffeg. Roedd archwiliadau clinigol yn cael eu cynnal, ac roedd y cofnodion yn dangos bod 95 y cant o'r radiograffau o lefel dderbyniol. Roedd prosesau sicrhau ansawdd yn cynnwys calibradu sgriniau a phrofion lletem risiog o'r cyfarpar radiograffeg digidol. Roedd copïau wrth gefn yn cael eu cadw o ddelweddau digidol gan ddefnyddio systemau cwmwl.

Yn ystod yr arolygiad, darparodd y practis dystiolaeth o werthusiadau clinigol a phroses ar gyfer graddio radiograffau deintyddol, ynghyd â chofnodion o archwiliadau radiograffeg a oedd yn dangos bod y trefniadau hyn yn cael eu monitro'n rheolaidd.

Gwnaethom edrych ar gofnodion y cleifion a gwelsom nad oedd rhai gwerthusiadau radiograffig i'w gweld ar unwaith ar system Dentally. Esboniodd y practis ei fod wedi symud o ddefnyddio system Exact i ddefnyddio system Dentally ym mis Hydref 2025 a dywedodd fod yn rhaid defnyddio system flaenorol Exact o hyd er mwyn gweld rhywfaint o'r wybodaeth radiograffig hanesyddol. Roedd y system flaenorol ar gael i ni ei gweld ar adeg yr arolygiad. Roedd y dystiolaeth yn dangos bod gwerthusiadau radiograffig yn cael eu cynnal a'u monitro fel rhan o drefniadau llywodraethu radiograffeg y practis.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Gwelsom fod trefniadau ar waith yn y practis er mwyn helpu i asesu cleifion, rhoi diagnosis iddynt a'u trin yn ddiogel. Dangosodd y staff ymwybyddiaeth o ganllawiau proffesiynol, rheoleiddiol a statudol perthnasol ac roeddent yn cymhwyso'r canllawiau hyn wrth ddarparu gofal i gleifion lle y bo'n briodol.

Roedd y practis yn defnyddio'r Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau Mewnwithiol (LocSSIPs) i gefnogi ymarfer clinigol diogel ac er mwyn helpu i atal achosion o dynnu'r dant anghywir. Roedd y gweithdrefnau hyn yn rhan o ddull y practis o leihau risgiau clinigol a hyrwyddo diogelwch cleifion.

Gwelsom dystiolaeth fod y staff yn gofyn am gyngor a chymorth proffesiynol pan oedd eu hangen er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael gofal a thriniaethau priodol. Roedd hyn yn helpu i sicrhau bod penderfyniadau clinigol yn seiliedig ar ganllawiau cyfredol ar arbenigedd arbenigol lle bo angen.

Cofnodion cleifion

Roedd cofnodion cleifion yn cael eu cadw ar ffurf electronig gan ddefnyddio system rheoli practisau Dentally, ac roedd copïau wrth gefn yn cael eu cadw o'r data gan ddefnyddio dull storio cwmwl.

Roedd y practis wedi symud i argraffiadau a modelau digidol, a oedd yn cael eu storio ar ffurf electronig gan ddefnyddio system sganiwr yn y geg. Roedd hyn yn lleihau'r angen am ddull storio ffisegol ac yn cefnogi prosesau rheoli cofnodion effeithlon.

Gwelsom fod cofnodion cleifion yn cael eu storio'n ddiogel a'u cadw'n unol â gweithdrefnau cadw'r practis. Roedd systemau ar waith hefyd i fonitro atgyfeiriadau a sicrhau camau dilynol priodol. Dywedodd y staff wrthym fod gohebiaeth rhyddhau a gohebiaeth ddilynol yn ymwneud â chleifion a atgyfeiriwyd yn cael eu hadolygu a bod camau gweithredu yn cael eu cymryd fel y bo'n ofynnol, a bod y staff yn cysylltu â'r cleifion os oedd angen rhagor o wybodaeth neu apwyntiadau.

Roedd gan y practis drefniadau i fonitro atgyfeiriadau brys ar gyfer achosion lle yr amheuwyd canser y geg. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cysylltu â chleifion a

atgyfeiriwyd o dan y llwybrau hyn tua wythnos ar ôl cael eu hatgyfeirio i gadarnhau eu bod wedi cael eu gweld neu eu bod wedi cael apwyntiad, gan helpu i sicrhau mynediad amserol at ofal arbenigol.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion 10 claf a gwelsom fod y cofnodion yn glir, yn ddarllenadwy ac o safon dda ar y cyfan. Roedd cofnodion y cleifion bob amser yn cynnwys gwybodaeth allweddol fel dynodyddion cleifion, hanesion deintyddol a meddygol, hanes cymdeithasol, asesiadau hylendid y geg, cynlluniau triniaeth, cydsyniad, radiograffau, asesiadau risg a chyfnodau adalw. Roedd hanesion meddygol yn cael eu cwblhau'n electronig cyn apwyntiadau ac yn cael eu hadolygu a'u diweddarau gan y deintydd yn ystod pob ymgynghoriad. Nid oedd dewisiadau iaith y cleifion yn cael eu cofnodi fel mater o drefn yng nghofnodion y cleifion.

Roedd archwiliadau clinigol yn gynhwysfawr ar y cyfan ac yn cynnwys archwiliadau meinwe meddal, asesiadau y tu allan i'r geg ac yn y geg, profion sgrinio periodontol ac asesiadau radiograffig lle y bo'n briodol. Roedd prosesau atgyfeirio wedi'u dogfennu'n dda, gyda thystiolaeth bod atgyfeiriadau'n briodol, bod camau dilynol yn cael eu cymryd a'u bod yn cael eu cofnodi yng nghofnodion y cleifion.

Fodd bynnag, gwnaethom nodi rhai meysydd lle gellid gwella'r broses o gadw cofnodion. Nid oedd y templedi clinigol bob amser wedi'u teilwra'n llawn at y claf unigol ac weithiau roeddent yn cynnwys gwybodaeth gyffredinol nad oedd wedi'i phersonoli gan ystyried y cwrs triniaethau penodol. Roedd y broses o gofnodi symptomau cleifion yn anghyson hefyd mewn rhai o'r cofnodion a welwyd.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu ei brosesau ar gyfer cadw cofnodion clinigol er mwyn sicrhau bod cofnodion cleifion yn gywir, yn gyflawn ac wedi'u personoli i'r claf unigol.

Er bod asesiadau periodontol yn cael eu cofnodi'n gyffredinol, roedd anghysondebau wrth ddogfennu'r camau a gymerwyd yn dilyn profion sgrinio periodontol, gan gynnwys darparu triniaeth beriodontol a chwblhau siartiau poced chwe phwynt lle roedd hynny wedi'i nodi. Gwnaethom nodi hefyd nad oedd cyngor ar roi'r gorau i smygu yn cael ei gofnodi'n gyson lle y bo'n berthnasol.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau'r canlynol:

- **Caiff asesiadau periodontol eu dogfennu'n llawn, gan gynnwys unrhyw gamau a gymerwyd yn dilyn profion sgrinio periodontol, fel darparu triniaeth beriodontol a chwblhau siartiau poced chwe phwynt lle roedd hynny wedi'i nodi o safbwynt clinigol**
- **Dylid rhoi cyngor cyson ar roi'r gorau i smygu a'i gofnodi yng nghofnodion clinigol cleifion sy'n smygu, er mwyn cefnogi canlyniadau iechyd y geg da a dangos bod cyngor ataliol priodol wedi'i roi.**

Effeithlon

Effeithlon

Gwelsom fod trefniadau ar waith yn y gwasanaeth er mwyn helpu i ddarparu gofal effeithlon. Roedd slotiau apwyntiadau brys ar gael bob dydd i gleifion yr oedd angen triniaeth ddeintyddol frys arnynt, gan leihau'r angen i fynychu gwasanaethau gofal brys neu wasanaethau y tu allan i oriau. Cawsom sicrwydd fod trefniadau ar gyfer atgyfeirio cleifion i wasanaethau eraill ar waith a bod llwybrau trin yn cael eu rheoli'n briodol. Roedd y cyfleusterau a'r safle yn addas ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir. Roedd gan y practis systemau ar waith hefyd i reoli argaeledd apwyntiadau, gan gynnwys cynnig apwyntiadau wedi'u canslo i gleifion eraill lle y bo'n briodol. Dywedwyd wrthym fod sesiynau clinigol yn cael eu defnyddio'n effeithlon a bod nifer digonol o glinigwyr ar gael i ddiwallu anghenion cleifion.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan Staff

Cawsom ymatebion gan ddau aelod o'r staff i'r holiadur staff. Er nad yw hyn o reidrwydd yn cynrychioli'r tîm staff ehangach, roedd yr adborth a gafwyd yn gadarnhaol.

Cadarnhaodd y ddau aelod o staff eu bod wedi cael hyfforddiant priodol ar gyfer eu rôl a'u bod wedi cael arfarniad neu adolygiad perfformiad o fewn y 12 mis blaenorol. Nododd yr ymatebwyr fod cyfarpar, cyfleusterau a systemau priodol ar gael iddynt allu rhoi gofal i gleifion, ac roedd o'r farn bod cleifion yn cael eu trin ag urddas ac yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu triniaeth. Cafwyd adborth cadarnhaol ganddynt hefyd am agwedd y practis at lesiant staff, rhoi gwybod am ddigwyddiadau ac atal a rheoli heintiau.

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Gwelsom fod strwythur rheoli clir ac effeithiol ar waith yn y practis. Roedd siart sefydliadol ar gael a oedd yn amlinellu'r rolau rheoli a'r llinellau atebolrwydd yn glir. Gwelsom fod gan y practis ddatganiad o ddiben a oedd wedi cael ei adolygu yn ystod y 12 mis diwethaf. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd yn cynnwys manylion cyswllt ar gyfer cyfeiriad AGIC fel sy'n ofynnol o dan y rheoliadau. Yn dilyn yr arolygiad, aeth y practis ati i ddiweddarau'r Datganiad o Ddiben i gynnwys y wybodaeth ofynnol a chyflwynodd dystiolaeth o'r newid i AGIC.

Gwelsom dystiolaeth fod cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal bob mis, a bod y trafodaethau yn cael eu cofnodi a bod camau gweithredu yn cael eu nodi. Roedd

cofnodion cyfarfodydd yn cael eu rhannu ag aelodau o'r staff nad oeddent yn gallu mynychu, ac roedd unrhyw ddogfennau y cyfeiriwyd atynt yn ystod cyfarfodydd yn cael eu dosbarthu i bob aelod o'r tîm er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu hysbysu.

Roedd gan y practis broses ar gyfer rheoli rhybuddion a hysbysiadau diogelwch, gan gynnwys y rhai a gyhoeddwyd gan sefydliadau fel yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) a Llywodraeth Cymru. Roedd hysbysiadau diogelwch yn cael eu cofnodi, eu dosbarthu i bob aelod o'r staff drwy e-bost a'u cynnwys fel eitemau ar yr agenda i'w trafod yn ystod cyfarfodydd tîm dilynol.

Gwelsom dystiolaeth fod y practis yn cynnal cofrestr gynhwysfawr o bolisiâu a gweithdrefnau, wedi'i chefnogi gan fynegai o'r holl ddogfennau cyfredol. Roedd y polisiâu yn cael eu hadolygu unwaith y flwyddyn, neu'n gynt os oedd angen newidiadau, ac roedd cofnod o adolygiadau polisi yn cael ei gadw i gofnodi'r dyddiadau adolygu. Roedd y staff yn cael gwybod am ddiweddariadau i bolisiâu a gweithdrefnau drwy gyfarfodydd y practis.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Gwelsom fod gan y practis drefniadau ar waith i sicrhau bod digon o staff â chymwysterau addas ar gael i ddiwallu anghenion cleifion. Roedd aelodau dynodedig o'r tîm rheoli yn gyfrifol am reoli rotas y staff, ac roedd lefelau staffio ym mhob rhan o'r practis yn cael eu goruchwyllo er mwyn sicrhau cyflenwad digonol o staff.

Gwelsom fod polisi chwythu'r chwiban ar waith ac roedd y staff yn cael eu hannog i godi pryderon am y gwasanaeth a ddarperir, triniaethau neu faterion rheoli. Roedd y practis yn gweithredu diwylliant drws agored, a dywedwyd wrthym fod y staff yn teimlo'n hyderus ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi godi pryderon pan fo angen.

Roedd systemau ar waith i gefnogi prosesau ar gyfer datblygu a goruchwyllo'r staff. Roedd y staff yn cael arfarniadau blynyddol, ac roedd nyrsys deintyddol dan hyfforddiant yn cael sesiynau cymorth un-i-un ychwanegol. Dywedwyd wrthym fod sesiynau goruchwyllo clinigol yn cael eu cynnal. Roedd gan y practis hefyd raglen sefydlu strwythuredig ar gyfer aelodau newydd o staff, wedi'i hategu gan becyn i staff newydd, ac roedd y broses sefydlu yn parhau dros gyfnod o chwe mis.

Roedd gan y practis weithdrefnau ar waith i ymdrin â phryderon am berfformiad. Roedd materion yn cael eu trafod â'r staff, eu dogfennu'n briodol a'u huwchgyfeirio lle y bo angen yn unol â pholisiâu'r practis. Gwelsom hefyd fod gweithdrefnau recriwtio ar waith i sicrhau bod staff yn cyrraedd y safonau addasrwydd i weithio gofynnol ar gyfer eu rolau priodol.

Roedd y practis yn cadw cofnodion hyfforddiant staff a matrices hyfforddiant er mwyn monitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant a gofynion cymhwysedd. Dywedwyd wrthym fod

aelodau dynodedig o'r tîm rheoli yn monitro cyfraddau cwblhau hyfforddiant ac yn sicrhau bod unrhyw ddiweddariadau gofynnol yn cael eu cynnal mewn modd amserol.

Roedd y practis yn helpu'r staff i ddatblygu a chynnal y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer eu rolau drwy gyfleoedd hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus. Roedd y trefniadau hyn yn helpu i sicrhau bod y staff yn parhau'n gymwys ac yn ymwybodol o'r gofynion ymarfer cyfredol diweddaraf.

Roedd y practis yn monitro gofynion cofrestru proffesiynol drwy daenlen reoli, a oedd yn nodi dyddiadau adnewyddu arfaethedig. Gwelsom dystiolaeth fod gan y staff gofrestriadau priodol â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, yswiriant indemnïad proffesiynol, a chofnodion iechyd galwedigaethol, lle roedd eu hangen.

Fodd bynnag, nodwyd gennym fod gan un hylenydd a dau therapydd dystysgrifau DBS a gafwyd mewn perthynas â swyddi eraill. Er bod y practis wedi gweld y dystysgrifau hyn, nid oedd wedi dogfennu sut roedd wedi bodloni ei hun bod y gwiriadau yn parhau'n briodol ar gyfer y rolau dan sylw. Gwnaethom awgrymu y dylai'r practis adolygu ei weithdrefnau recriwtio ac ystyried rhoi proses datganiadau staff blynyddol ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y staff yn parhau'n addas.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Gwelsom fod sawl dull ar waith yn y practis i alluogi cleifion i roi adborth am y gwasanaeth. Roedd holiaduron boddhad cleifion ar gael yn yr ardal aros, roedd cleifion yn cael dolen i adael adolygiad yn dilyn eu hapwyntiad, a gellid rhoi adborth hefyd drwy wefan y practis.

Roedd y practis yn annog cleifion i roi adborth ar lafar ac yn holi barn cleifion yn rheolaidd yn dilyn apwyntiadau. Roedd hyn yn helpu i sicrhau y gellid cael adborth gan amrywiaeth o gleifion, gan gynnwys y rhai hynny a fyddai o bosibl yn ei chael hi'n anos rhoi adborth ysgrifenedig.

Gwelsom fod adborth gan gleifion yn cael ei gofnodi a'i fonitro gan ddefnyddio taenlen ganolog. Roedd adborth a fyddai'n dod i law yn cael ei drafod yn ystod cyfarfodydd y practis a'i ddefnyddio i nodi cyfleoedd i wella.

Gwelsom dystiolaeth fod y practis wedi gwneud newidiadau mewn ymateb i adborth gan gleifion. Yn dilyn ceisiadau gan gleifion, gwnaed trefniadau i sicrhau bod copïau wedi'u hargraffu ar gael o'r rhestr ffioedd. Yn ogystal, cyflwynwyd cadeiriau â breichiau yn yr ardal aros ar ôl i adborth dynnu sylw at y ffaith bod rhai cleifion yn ei chael hi'n anodd codi o'r seddi a ddarparwyd yn flaenorol.

Roedd yr enghreifftiau hyn yn dangos bod y practis wedi gwrandao ar adborth gan gleifion ac wedi gwneud gwelliannau er mwyn gwella profiad cleifion.

Gwelsom fod gan y practis weithdrefn gwyno ar waith a oedd ar gael i'r cleifion. Roedd copi o'r weithdrefn ar gael mewn ffolder gwybodaeth i gleifion yn yr ardal aros ac roedd y wybodaeth hefyd i'w gweld ar sgrin wybodaeth y practis.

Roedd y weithdrefn gwyno yn cynnwys disgrifiad clir o'r broses gwyno, amserlenni ar gyfer cydnabod ac ymateb i gwynion, gwybodaeth am wasanaethau eirioli a gwasanaethau cymorth, a manylion am y broses i'w dilyn pe na ellid datrys cwyn yn lleol. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd y weithdrefn gwyno yn cynnwys manylion cyswllt AGIC i gleifion sy'n cael gofal a thriniaethau deintyddol preifat. Yn dilyn yr arolygiad, aeth y practis ati i ddiweddarau'r weithdrefn gwyno i gynnwys y wybodaeth ofynnol a chyflwynodd dystiolaeth o'r newid i AGIC.

Dywedwyd wrthym fod aelod dynodedig o'r staff yn gyfrifol am reoli cwynion, a bod manylion y drefn hon ar gael i gleifion yn y ffolder gwybodaeth i gleifion. Gwelsom dystiolaeth fod cwynion yn cael eu cofnodi'n briodol a'u cadw mewn ffeil cwynion. Roedd cwynion llafar ac anffurfiol hefyd yn cael eu dogfennu yn y cofnod cwynion er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu monitro a'u hadolygu.

Roedd y trefniadau hyn yn helpu i reoli cwynion gan gleifion mewn ffordd amserol ac effeithiol.

Gwybodaeth

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Gwelsom fod systemau ar waith yn y practis i gofnodi, monitro a rheoli digwyddiadau diogelwch cleifion. Roedd polisi ar gael i arwain y staff wrth roi gwybod am ddigwyddiadau a'u rheoli, a gwelsom dystiolaeth fod digwyddiadau yn cael eu cofnodi mewn cofnod pwrpasol.

Roedd y trefniadau hyn yn helpu i gofnodi digwyddiadau diogelwch cleifion yn effeithiol ac yn galluogi'r practis i adolygu digwyddiadau, nodi unrhyw wersi a ddysgwyd a chymryd camau lle y bo angen i wella diogelwch cleifion.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Gwelsom fod systemau ar waith yn y practis i fonitro a chefnogi prosesau gwella ansawdd. Roedd gwybodaeth yn ymwneud â meysydd fel adborth a chwynion gan gleifion yn cael ei chofnodi a'i hadolygu er mwyn nodi themâu, tueddiadau a chyfleoedd i wella.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Gwelsom fod trefniadau ar waith yn y practis i ymgysylltu â sefydliadau allanol a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol pan fo angen. Dywedodd y practis wrthym ei fod yn cysylltu ag asiantaethau a phartneriaid gofal iechyd perthnasol, fel timau diogelu, meddygon teulu, gwasanaethau gofal eilaidd a fferyllwyr, lle bo hynny'n angenrheidiol i gefnogi gofal a thriniaeth cleifion.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgwyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen ymdrin â'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgwyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn			

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Greenfield Dental Care

Dyddiad yr arolygiad: 2 Gorffennaf 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Canfyddiadau

Ni nodwyd unrhyw faterion uniongyrchol yn ymwneud â diffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Greenfield Dental Care

Dyddiad yr arolygiad: 2 Gorffennaf 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Gwelsom fod y defnydd finyl ar y gadair lawdriniaeth a chadair y nyrs yn Neintyddfa 1 wedi rhwygo. Dangosodd y practis fod gorchudd plastig tafladwy yn cael ei roi dros y gadair lawdriniaeth ar gyfer pob claf fel rhan o'i drefniadau atal a rheoli heintiau. Cawsom wybod hefyd fod y practis wedi cael dyfynbrisiau ar gyfer cadair newydd a bod y	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff defnydd sydd wedi'i ddifrodi ar gyfarpar clinigol ei atgyweirio neu y ceir cyfarpar newydd er mwyn gallu cynnal gwaith glanhau a diheintio effeithiol.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 13(2)(a)			Trefnwyd i osod cadair newydd yn ystod yr wythnos yn dechrau 19/10/26

	trefniadau ar gyfer cael cadair newydd yn mynd rhagddynt yn barod ar adeg yr arolygiad.					
2.	Gwnaethom nodi rhai meysydd lle gellid gwella'r broses o gadw cofnodion. Nid oedd y templedi clinigol bob amser wedi'u teilwra'n llawn at y claf unigol ac weithiau roeddent yn cynnwys gwybodaeth gyffredinol nad oedd wedi'i phersonoli gan ystyried y cwrs triniaethau penodol. Roedd y broses o gofnodi symptomau cleifion yn anghyson hefyd mewn rhai o'r cofnodion a welwyd.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu ei brosesau ar gyfer cadw cofnodion clinigol er mwyn sicrhau bod cofnodion cleifion yn gywir, yn gyflawn ac wedi'u personoli i'r claf unigol.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 20(1)	Cafodd y templedi clinigol eu hadolygu a diweddarwyd yr archwiliad cadw cofnodion i gynnal asesiad penodol o'r broses o bersonoli nodiadau a chofnodi symptomau cleifion. Mae nodiadau clinigol wedi'u harddweud gan ddefnyddio cymorth deallusrwydd artiffisial hefyd yn cael eu cyflwyno er mwyn cefnogi proses fwy cynhwysfawr wedi'i theilwra'n well at yr unigolyn ar gyfer cadw cofnodion. Bydd cydymffurfiaeth yn parhau i gael ei monitro drwy'r archwiliad cadw cofnodion parhaus.	Rheolwr Cydymffurfiaeth	Wedi'i gwblhau/archwiliad parhaus

3.	Er bod asesiadau periodontol yn cael eu cofnodi'n gyffredinol, roedd anghysondebau wrth ddogfennu'r camau a gymerwyd yn dilyn profion sgrinio periodontol, gan gynnwys darparu triniaeth beriodontol a chwblhau siartiau pced chwe phwynt lle roedd hynny wedi'i nodi. Gwnaethom nodi hefyd nad oedd cyngor ar roi'r gorau i smygu yn cael ei gofnodi'n gyson lle y bo'n berthnasol.	Rhaid i reolwr y practis sicrhau'r canlynol: • Caiff asesiadau periodontol eu dogfennu'n llawn, gan gynnwys unrhyw gamau a gymerwyd yn dilyn profion sgrinio periodontol, fel darparu triniaeth beriodontol a chwblhau siartiau pced chwe phwynt lle roedd hynny wedi'i nodi o safbwynt clinigol • Dylid rhoi cyngor cyson ar roi'r gorau i smygu a'i gofnodi yng nghofnodion clinigol cleifion sy'n smygu, er mwyn cefnogi canlyniadau iechyd y geg da a dangos bod cyngor ataliol priodol wedi'i roi.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 20(1)	Cafodd dogfennaeth beriodontol, gan gynnwys siartiau pced chwe phwynt lle caiff hynny ei nodi a'r camau gweithredu yn dilyn sgrinio periodontol, ei hychwanegu at yr archwiliad cadw cofnodion. Gosodwyd canllawiau'r BSP ym mhob deintyddfa i atgoffa'r staff a thrafodwyd y gofynion â'r clinigwyr yn ystod cyfarfod adolygu cymheiriaid. Cwblhawyd archwiliad rhoi'r gorau i smygu hefyd ers yr arolygiad. Ychwanegwyd y gofyniad i gofnodi cyngor ar roi'r gorau i smygu at yr archwiliad cadw cofnodion parhaus a chafodd ei drafod â'r clinigwyr yn ystod un o gyfarfodydd y practis.	Rheolwr Cydymffurfiaeth	Wedi'i gwblhau/archwiliad parhaus
----	---	---	--	---	--------------------------------	--

--	--	--	--	--	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): L Burrows

Swydd: Rheolwr Cydymffurfiaeth

Dyddiad: 01/09/2026